## Yr amserlen ar gyfer Cyfnod 2 y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Ar 23 Ionawr 2009, gosododd Pwyllgor y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol ei Adroddiad Cyfnod 1 gerbron y Cynulliad.

Ar 4 Chwefror 2009, penderfynodd y Cynulliad sefydlu Pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, a elwir yn Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4, i ystyried cynigion deddfwriaethol a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.31(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Mesur arfaethedig i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4, ar gyfer trafodion Cyfnod 2.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen ar gyfer ystyriaeth fanwl y Pwyllgor ac wedi cytuno y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 27 Mawrth 2009.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Ionawr 2009**